

**CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL**



Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhalwyd drwy ffyrf hybrid
nos Fawrth, 20 o Fedi 2022 am 7:30yh

(bu ail-drefnu'r cyfarfod o'r 12 o Fedi yn dilyn marwolaeth EM Brenhines Elizabeth II)

YN Cynghorwyr Anne Roberts (Cadeirydd), Stephen Beach, Oliver Bradley-Hughes,
BRESENNOL: Christine Ellis, Menna Jones, Rachel Ryland a Lisa Willams

Siân Clark – Clerc y Dref a Marian Rees - Cyfieithydd

20. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gavin Harris a Jabez Redfern Oakes

21. DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

22. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 4 o Orffennaf 2022 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.*

23. MATERION YN CODI

Dim.

24. BAE I FYSUS MOETHUS DDISGYN A CHODI TEITHWYR TU ALLAN I'R HEN LYS

Hysbysodd y Clerc yr Aelodau bu iddi gysyllu â syddogion ac aelodau lleol Cyngor Sir Ddinbych, i ddechrau'r broses o gyflwyno gorchymyn amrywiad traffig i greu man disgyn a chodi teithwyr byssus moethus y tu allan i'r Hen Lys. Byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: *bod y Clerc yn bwrw ymlaen â chymhellwedd mewn perthynas â chyflwyno gorchymyn amrywiad traffig i greu man disgyn a chodi teithwyr byssus moethus y tu allan i'r Hen Lys.*

25. CYSTADLEUAETH ARDDANGOSFA FLODEUOL 2022 AC EDRYCH YMLAEN AT 2023

Bu i'r Cynghorwyr Anne Roberts a Rachel Ryland beirniadu'r arddangosfeydd blodau o eiddo busnes a safleoedd thrwyddedig yn y dref. Roedd y Salon ar Stryd Clwyd a Gwesy'r Castell, Wetherspoons wedi ennill; roedd y tlysau wedi'u cyflwyno yn Sioe Rhuthun ar 20 Awst 2022. Roedd ffotograffau o'r enillwyr gyda'r Maer wedi'u cyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol ac yn Y Bedol

Cyn tymor yr haf 2023, awgrymwyd a chytunwyd y dylid atgoffa busnesau a safleoedd trwyddedig y dref o'r gystadleuaeth arddangos blodau i annog cyfranogwyr ychwanegol. Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid ychwanegu cystadleuaeth bellach (gyda thlws tebyg) o 2023 i gwmpasu gerddi cymunedol sefydliadau gofal, llety gwarchod a safleoedd byw â chymorth. I'r Clec hysbysu Sioe Rhuthun er mwyn i'r gystadleuaeth ychwanegol gael ei hychwanegu at yr amserlen gyflwyno o 2023 ymlaen.

PENDERFYNWYD: *nodi bod y Salon ar Stryd Clwyd a Gwesty'r Castell, Wetherspoons wedi'u ennill yr arddangosfeydd blodau gorau ar gyfer eiddo busnes a safleoedd thrwyddedig; i gyhoeddi nodyn i atgoffa pawb o'r cystadlaethau arddangos blodau cyn tymor 2023; a bod cystadleuaeth ychwanegol yn cael ei hychwanegu o 2023 i gwmpasu gerddi cymunedol sefydliadau gofal, llety gwarchod a safleoedd byw â chymorth.*

26. BASGEDI CROG Y DREF

Cafwyd sylwadau ffafriol gan yr aelodau ar y blodau basgedi crog y dref gan fynegi eu diolch i Goleg Derwen am ansawdd ac amrywiaeth y planhigion ac i J&C Brimble am eu gofal a'u sylw wrth ddyfrio'r planwyr dros y tymor, yn enwedig o ystyried y tywydd poeth eithriadol yn ystod y tymor. yr haf. O ystyried bod y tymor blodeuo yn dod i ben, byddai'r Clerc yn gwneud trefniadau i dynnu'r leinin plannu o fewn y pythefnos nesaf.

Rhoddodd y Clerc wybodaeth i'r Aelodau ynghylch costau adnewyddu leinwyr y basgedi crog ar gyfer gwanwyn 2023, gan bod rhai ohonynt wedi torri neu wedi mynd ar goll dros y blynyddoedd. Yn seiliedig ar gost o ddim mwy na £24.15 + TAW fesul leinin (yn unol â chyngor y cyflenwr), cytunodd yr Aelodau i amnewid y leinin coll er mwyn sicrhau cyflenwad llawn o'r basgedi crog ar gyfer tymor 2023.

Crewyd map o leoliadau presennol y planwyr blodau a bod hwn ar gael i'w weld. Dylid rhoi gwybod i'r Clerc am unrhyw awgrymiadau am leoliadau ychwanegol neu amgen ar gyfer y planwyr, er atgoffwyd yr aelodau bod rhai cyfyngiadau pwysau yn bodoli ar bolion lamp ac ati y byddai angen trafod gyda thîm goleuadau stryd Cyngor Sir Ddinbych fel yn briodol.

PENDERFYNWYD: cytunodd yr Aelodau i brynu leinin arddangos blodau newydd i sicrhau cyflenwad llawn ar gyfer tymor 2023; a rhoi gwybod i'r Clerc am unrhyw awgrymiadau ar gyfer lleoliadau ychwanegol neu amgen ar gyfer y planwyr.

27. CWNINGAR Y CASTELL

Hysbysodd y Cadeirydd fod gwaith ar wal Cwningar y Castell a ddifrodwyd yn cael ei drwsio ac y byddai wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2022.

PENDERFYNWYD: Nododd yr Aelodau'r adroddiad cynnydd a ddarparwyd.

28. GRWP ARGYFWNG HINSAWDD AC ECOLEGOL

Rhoddodd y Cynghorydd van der Eijk ddiweddariad ar weithgareddau a gynhaliwyd dros yr haf gan grwpiau amgylcheddol ac ecolegol. Roedd ReSource Ruthin am agor yn ddiweddarach yn yr wythnos. Roedd gan Gyfeillion y Ddaear fynediad at gamera delweddau thermol a fyddai'n helpu i amlygu adeiladau aneffeithlon o ran ynni. Roedd camau wedi'u cymryd mewn perthynas â'r llyn yng Nghae Ddôl, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, o ystyried y gostyngiad yn lefel y dŵr a phresenoldeb algâu; byddai asesiad pellach yn cael ei wneud mewn perthynas ag ymwrthedd i lifogydd. Byddai Climate Cymru yn lansio ymgyrch 'Cynnes y Gaeaf Hwn' ddydd Sul, 25 Medi, yn ystod yr Wythnos Werdd Fawr (24/09/2022 – 2/10/2022) yng Nghanolfan Naylor Leyland. Byddai COP 27, y Gynhadledd Partneriaeth Hinsawdd, i'w chynnal rhwng 7-18/11/2022 a roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i weithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal yn Rhuthun i gyd-fynd â'r digwyddiad. Roedd Caffi Trwsio Rhuthun yn boblogaidd iawn gydag 80% o'r eitemau a derbynwyd wedi'u trwsio.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod archwiliadau ynni a charbon rhad ac am ddim ar gael ar gyfer adeiladau cymunedol cymwys yn Sir Ddinbych trwy fenter Cadwyn Clwyd a DEG, a chysylltwyd yn gofyn am archwiliad ynni a charbon ar gyfer Yr Hen Lys. O ystyried y gwaith diweddar ar yr Hen Lys fel gosod boiler effeithlon newydd ac ati, yr adborth cychwynnol, cyn unrhyw archwiliad, oedd bod yr adeilad yn weddol ynni effeithlon ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD: Nododd yr Aelodau yr adroddiad diweddar a ddarparwyd.

29. PARATOADAU NADOLIG

Cynigiwyd ac eiliwyd y byddai'r goleuadau Nadolig yn cael eu goleuo yn Rhuthun ddydd Sadwrn, 3 Rhagfyr 2022. Roedd y dyddiad hwn eisoes wedi'i bennu fel diwrnod parcio am ddim.

Hysbysodd y Clerc wrth yr Aelodau, yn ystod toriad yr haf, gofynnwyd i Weithgor Aelodau Paratoadau'r Nadolig am gytundeb, i barhad blwyddyn o'r contract goleuadau motiff Nadolig gyda Blachere ar gost o £3,157.71 + TAW o £631.54 (yr un pris a ar gyfer 2021) - ac fe'i rhoddwyd. Cadarnhaodd y Pwyllgor Amwynderau ei gymeradwyaeth i barhad y goleuadau motiff Nadolig am

flwyddyn ar gyfer tymor y Nadolig 2022 gan nodi y pris. O ystyried y cynnydd ym mhrisiau ynni, byddai'r Aelodau'n rhoi ystyriaeth maes o law i hyd yr amser y byddai'r goleuadau ymlaen.

PENDERFYNWYD: *y bydd goleuadau Nadolig Rhuthun yn cael eu goleuo ddydd Sadwrn, 3 Rhagfyr 2022; i gymeradwyo parhad blwyddyn o oleuadau motiff Nadolig ar gyfer tymor Nadolig 2022 ar gost o £3,157.71 + TAW o £631.54 (yr un pris â 2021).*

30. ASESIAD O FEINCIAU'R DREF A'R BEINCIAU NEWYDD

Cadarnhaodd y Clerc fod y drwydded ar gyfer y meinciau newydd wedi ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Ddinbych a bod trefniadau mewn lle iddynt gael eu lleoli. Byddai archwiliad o feinciau'r dref yn dod i ben yn fuan.

Tynnodd yr Aelodau sylw at gyflwr gwael rhai o'r meinciau yn y dref, yn arbennig y fainc ar Ffordd Corwen, a gofynnwyd am weithredu'n gyflym i atgyweirio, ailosod neu symud fel y bo'n briodol. Darparwyd gwybodaeth bod dwy fainc, a leolwyd yn flaenorol ar Cwningar y Castell, yn cael eu storio ar hyn o bryd yn Lôn Parcwr.

PENDERFYNWYD: *nodi bod y drwydded ar gyfer y meinciau newydd wedi'i chymeradwyo a bod trefniadau mewn lle iddynt gael eu lleoli; bod camau'n cael eu cymryd yn gyflym i atgyweirio, ailosod neu symud meinciau sydd mewn cyflwr gwael.*

31. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai nos Lun, 10 o Hydref am 7.30pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*